

Math o Adroddiad	Cofnodion		
Cyfarfod Meeting	Partneriaeth Gwledig Môn/Arloesi Môn		
Lleoliad Venue	Neuadd y Dref Llangefni		
Dyddiad Date	09/05/19	Amser Time	1.00 pm

Yn Bresennol:

Cynrychiolwyr Sector Menter		
Mari Faulkener	(MF)	
Alwyn Williams	(AW)	
Dr Dylan Evans	(DE)	
Cynrychiolwyr Sector Gwirfoddol/Cymunedol		
Peter Davies OBE	(PD)	Menter Gymdeithasol Llangefni
Robin Grove-White	(RGW)	
Jean Baker	(JB)	
Adrian Roberts	(AR)	Severn Wye Energy
Sian Purcell	(SP)	Medrwn Mon
Cynrychiolwyr Sector Cyhoeddus		
Martin Jardine	(MJ)	Grŵp Llandrillo Menai (Cadeirydd)
Molly Lovatt	(ML)	NRW/CNC
Staff Menter Môn		
Dafydd Gruffydd	(DG)	
Jackie Lewis	(JL)	
Jane Davies	(JD)	
Sioned Morgan Thomas	(SMT)	
Staff Cyngor Môn		
Eifion Jones	(EJ)	
Hefyd yn bresennol		
		Cyfieithydd



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
*Isle of Anglesey
Charitable Trust*



Endaf Griffiths	Wavehill
-----------------	----------

Pwynt	Manylion	Cam Gweithredu
1	Croesawodd y Cadeirydd bawb, yn benodol, aelodau newydd, i'r cyfarfod	
2	<u>Ymddiheuriadau</u> Nigel Peacock Neville Evans Adrian Roberts Pryderi ap Rhisiart Dr Marian Gwyn Bethan Fraser-Williams	
3	<u>Datganiad o Fuddiant</u> <ul style="list-style-type: none"> Atgoffodd MF y cyfarfod ei bod yn gweithio i Bartneriaeth Adfywio Llangefni, a byddai Llangefni yn debygol o wneud cais i fod yn rhan o'r prosiect cysylltu llefydd yn Ddigidol. 	
4	<u>Cofnodion cyfarfod 14/2/19</u> Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod 14/2/19	
5	<u>Materion yn Codi.</u> <ul style="list-style-type: none"> MJ i rannu manylion ynghylch cynhadledd blastig mis Mawrth Sesiwn adolygu Wavehill LDS ar ôl y cyfarfod Cyflwyniad Wavehill wedi ei ddsbarthu i aelodau SP i rannu manylion pecynnau unigol gyda JD ar gyfer Grŵp Defnyddwyr Porthladd Caergybi 	
6	<u>Cynigion Prosiectau</u> <u>Cysylltu Llefydd yn Ddigidol</u> Amlinellodd JD a SMT y cynnig sy'n rhagweld gweithio gyda thri math o gymunedau er mwyn edrych ar dreialu gwahanol fathau o Wi-Fi. Bydd y pwyslais ar gael tri gwahanol fath o gymunedau, e.e. y stryd fawr, porthladd a llefydd ar gyfer digwyddiadau gyda phwyslais ar gynyddu ymwelwyr ac ennill gwybodaeth marchnata gan y rheiny sy'n mewngofnodi.	



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
Isle of Anglesey
Charitable Trust



<p>Trafodwyd y posibilrwydd o greu cyswllt gyda'r Grŵp Gweithredu Lleol Pysgodfeydd yn yr is-fwrdd ond oherwydd bod y FLAG yn mynd i'r afael ag arfordir cyfan gogledd Cymru, ni fyddai modd cyfiawnhau ymrwymiad mor sylweddol i un porthladd. Fodd bynnag, mae'n bosib y byddai rhai gweithgareddau yn gyflenwol.</p> <p>Bydd cymunedau yn cael eu dewis ar ôl gwneud galwad agored. Pwysleisiwyd pwysigrwydd bod â data gwaelodlin er mwyn tracio'r gwahaniaethau.</p> <p>Gall negeseuon atgoffa cael eu defnyddio ar gyfer hysbysu, yn dibynnu ar y dechnoleg a ddefnyddir.</p> <p>Byddai diogelwch seiber yn chwarae rhan wrth ddewis pa system i'w defnyddio</p> <p>Byddai'r wybodaeth a gasglwyd yn gyffredinol iawn, ac yn cydymffurfio â GDPR.</p> <p>Byddai penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch sut i gyfyngu amser / data sydd ar gael am ddim.</p> <p>Cymeradwywyd y prosiect am £ 36,000 yn cynnwys TAW</p> <p><u>Cinio Gwyliau</u></p> <p>Amlinellodd JD y prosiect sydd â'r nod i gynnig cinio ar gyfer plant a fyddai'n derbyn cinio ysgol am ddim yn ystod gwyliau ysgol. Mae prydau yn cael eu rhoi am ddim gan elusen a bydd y prosiect yn mynd i'r afael â hyfforddi'r gwirfoddolwyr. Byddai cyfranogiad yn wirfoddol, a byddai ysgolion yn rhan o'r gwaith cynghori ar y ffordd orau o drafod gyda'r teuluoedd. Byddai rhieni yn dewis y prydau, a gallant hefyd ddod i wirfoddoli.</p> <p>Cynigodd y Ganolfan Technoleg Bwyd eu cymorth hefyd.</p> <p>Sonwyd hefyd y byddai gwneud y pryd yn fwy lliwgar yn golygu byddai plant yn fwy tebygol o'i fwyta.</p> <p>Cymeradwywyd y prosiect am £1,938 yn cynnwys TAW</p> <p><u>Trên Tir Caergybi</u></p>	
--	--



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
*Isle of Anglesey
Charitable Trust*



<p>Eglurodd JL mai hwn oedd trydydd cam y prosiect. Roedd y cyntaf wedi cydnabod hwn fel y model gorau ac roedd cam 2 yn edrych ar bwy? ble? sut? Etc. Bydd y trydydd cam hwn yn profi'r cysyniad; gwirio llwybrau; holi ymwelwyr; hyfforddi gwirfoddolwyr. Os bydd y peilot yn llwyddiannus, y bwriad yw sefydlu cwmni a gwneud cynnig am gyllid i brynu trê'n tir. Mae ffynonellau cyllid yn cynnwys y Loteri ac IACT.</p> <p>Adroddwyd mai ond un cwmni oedd yn prydlesu trenau tir. Dywedodd DE bod trê'n tir wedi bod ar waith yng Nghaernarfon am gyfnod prawf rai blynyddoedd yn ôl, a chytunodd i holi Cyngor Gwynedd am fanylion.</p> <p>Bydd unrhyw arian a dderbynnir yn ystod y peilot yn cael ei ddefnyddio, un ai i leihau cost y peilot, neu i ymestyn y cyfnod. Cytunwyd ar grŵp a fyddai'n sail ar gyfer cwmni pe byddai'r prawf yn llwyddiannus.</p> <p>Mae'r llwybrau wedi eu cytuno eisoes yng ngham 2, a rhai llwybrau wedi eu dileu e.e. Ynys Lawd oherwydd nad yw'n hawdd i'r trê'n tir fynd yno.</p> <p>Roedd y cyllid ar gyfer marchnata yn isel, ond eglurodd JL y byddai'r rhan fwyaf yn cael ei wneud drwy gyfryngau cymdeithasol a thafleuni. Awgrymwyd y dylai awgrymiadau'r teithwyr gael eu nodi hyd yn oed os nad oes modd eu rhoi ar waith.</p> <p>Cymeradwywyd y prosiect am £19,000 yn cynnwys TAW</p> <p><u>Hydrogen</u></p> <p>Dangosodd DG fideo o Hydrogen yn cael ei greu o ynni adnewyddadwy yn Ynysoedd yr Alban. Daeth cynnig Gweithlu Gogledd Ynys Môn yn sgil cau Rehau a'r penderfyniad i roi stop ar drefniadau Wylfa Newydd. Roedd hon yn astudiaeth bychan yn mynd i'r afael â phosibiliadau. Mae Stena wedi dangos diddordeb mewn defnyddio hydrogen ar gyfer eu llongau ac roedd posibilrwydd o ddefnyddio'r peipiau rhwng Rhosgoch a Stanlow ar gyfer storio neu drosglwyddo.</p>	<p>DE i holi ynghylch Trê'n Tir Caernarfon</p>
---	---



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
*Isle of Anglesey
Charitable Trust*



	<p>Cynigwyd holi Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ynghylch eu cyfraniad i'r briff.</p> <p>Cymeradwywyd y prosiect am £12,000 yn cynnwys TAW</p>	
7	<p><u>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf</u></p> <p>18/07/19</p>	



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
*Isle of Anglesey
Charitable Trust*

